

Patrwm cyflwyno: O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Uniondeb strwythurol yw'r broses o astudio'r gwaith o ddylunio ac asesu cydrannau a strwythurau dan lwyth yn ddiogel, ac mae wedi dod yn fwyfwy pwysig ym maes dylunio peirianeg. Mae'n integreiddio agweddau ar beirianeg fecanyddol, dadansoddi straen, ymddygiad deunyddiau a mecaneg methiannau yn y broses dylunio peirianeg.

Bydd y modiwl yn cynnwys nifer o astudiaethau achos a bydd o ddiddordeb i unrhyw un sy'n ymwneud â dylunio cydrannau neu strwythurau dan lwyth. Bydd yn helpu i feithrin sgiliau wrth ddadansoddi ac asesu'r broses o ddylunio cynnyrch a chynnal dadansoddiad fforensig o elfennau sy'n methu.

Bydd T367 yn cynnwys tair rhan. Bydd pythefnos cyntaf y modiwl yn cynnwys adolygu'r deunydd sydd ei angen i astudio gweddill y modiwl. Byddai modiwlau blaenorol wedi cyfeirio at y mwyafrif o'r deunydd hwn, ond mae wedi'i gynnwys yma i unrhyw fyfyrwr nad ydynt, am ba reswm bynnag, yn eu hastudio.

Bydd rhan 1 yn ymdrin â damcaniaeth uniondeb strwythurol, dadansoddi methiannau a mecaneg holltau.

Bydd rhan 2 yn cyflwyno'r broses o fesur a phrofi'r cysyniadau a ddatblygwyd yn rhan 1.

Bydd rhan 3 yn cyflwyno cysyniadau peirianeg fforensig a bydd yn cynnwys nifer o astudiaethau achos.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, rhaid i chi feddu ar y canlynol:

- Gradd mewn peirianeg *neu* brofiad o addysgu peirianeg ar lefel Addysg Uwch neu lefel gyfatebol
- Diddordeb mewn addysgu peirianeg
- Y gallu i helpu myfyrwyr i feithrin sgiliau peirianeg drwy addysgu o bell
- Dealltwriaeth o ddamcaniaeth dadansoddi straen, mecaneg holltau a pheirianeg fforensig, a'r broses o'u cymhwyso
- Profiad o ddefnyddio adnoddau mathemategol a TG i ddatrys problemau peirianeg
- Profiad o feddalwedd dadansoddi elfennau meidraidd, neu barodrwydd i ddysgu sut i'w defnyddio

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- Profiad diweddar o weithio mewn amgylchedd peirianeg
- Profiad o gefnogi myfyrwyr i ddadansoddi a modelu technegau i'w cymhwyso at ymarfer peirianeg

Gwybodaeth ychwanegol

Bydd myfyrwyr yn astudio tua 10 awr yr wythnos, sef 5.5 awr o astudiaeth dan gyfarwyddyd a 4.5 awr o astudiaeth hunangyfeiriedig a arweinir gan fyfyrwyr.

Bydd dau aseiniad crynodol a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) (un ar gyfer bloc 1 ac un ar gyfer bloc 2), un aseiniad ffurfiannol a gaiff ei farcio gan gyfrifiadur (iCMA 51), tri asesiad crynodol a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur (iCMAau 41-43) ac asesiad ar ddiwedd y modiwl (EMA); a fydd ar ffurf adroddiad peirianeg fforensig penodol iawn, yn cyfeirio at agweddau mathemategol a chysyniadol ar y modiwl. Bydd y tiwtora'n cynnwys tiwtorialau ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar gael ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynwyd gan y myfyriwr:	5
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3.30